Cenn@d

MAWRTH 2 2022 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 53

# Cofio 'Dewi'r Cymro', ond beth am 'Dewi'r Cristion'?

Ar Fawrth 1af, byddwn fel Cymry yn dathlu ac yn ymfalchïo yn ein nawddsant Dewi, a hynny eleni ddiwrnod cyn dechrau tymor y Grawys. Yma, mae Aled Davies yn holi a ydym bellach fel Cymry wedi dewis anghofio pwy oedd Dewi mewn gwirionedd, a'r hyn a safai drosto fel mynach ac fel esgob?

Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd 'parêds' yn cael eu cynnal mewn trefi a dinasoedd ar hyd a lled Cymru, gyda phlant ysgol yn chwifio'u baneri, ynghyd â chynrychiolwyr ar ran nifer o fudiadau a chymdeithasau. Cynhelir cyngherddau ac eisteddfodau lleol, a bydd cymdeithasau lu yn dathlu yng nghwmni siaradwr gwadd dros bryd bwyd. Mae'r galw am ddiwrnod cenedlaethol o wyliau ar gynnydd ac eleni, am y tro cyntaf, fe fydd holl weithwyr swyddfa Cyngor Gwynedd yn cael diwrnod ychwanegol o wyliau ar Fawrth 1af.

Mae Iwerddon hefyd yn nodedig am ddathlu gŵyl Sant Padrig, eu nawddsant hwythau, ar Fawrth 17, ond ychydig iawn o sylw a roddir yn Lloegr i Ŵyl San Siôr ar Ebrill 23. Er hynny, diolch am bob dathliad, am bob cyfle i ddod ynghyd i ymfalchïo yn ein hanes a'n treftadaeth Gymreig a Christnogol.



## Arwr Cymreig

Er yr holl sylw a roddir i Ddewi yng Nghymru, tybed a ydym fel Cymry bellach yn ei weld fel arwr 'Cymreig, cenedlaetholgar' yn unig, ac wedi anghofio amdano fel 'Cristion cenhadol'? Prin y cyfeirir ato fel mynach ac fel esgob, ac rydym yn prysur anghofio'i eiriau o anogaeth i ddilyn Iesu. Yn ôl traddodiad, credir i Ddewi gael ei eni yn Henfynyw yng Ngheredigion yn y chweched ganrif, yn fab i'r Santes Non. Daeth yn enwog fel athro a phregethwr, gan sefydlu eglwysi a mynachlogydd ar ei deithiau ledled Cymru. Dywedir iddo fyw bywyd disgybledig a syml fel mynach.

Bydd llawer yn dyfynnu ei eiriau, 'Gwnewch y pethau bychain', ond, i'w deall yn iawn, rhaid darllen y frawddeg gyfan. Nodir yn ei bregeth olaf y geiriau, 'Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf i.' Nid galwad sydd yma i 'wneud y pethau bychain', hynny yw, byddwch yn ffeind a charedig wrth bawb, ond galwad i gadw ein ffydd a'n cred yn Iesu Grist, ac i weithredu yn unol ag esiampl Dewi ei hun fel dilynwr a disgybl i Iesu. Galwad sydd yma ar i ni wneud y pethau wnaeth ***o*** eu dweud a'u gwneud, sef dilyn Iesu a byw bywyd fel y byddai Iesu am i ni ei wneud.

Ar Fawrth 1af, fe fydd llawer yn barod i roi bloedd dros 'YES Cymru', ond efo fawr i'w ddweud dros 'YES Crist'. Byddwn yn barod i ddathlu'r cenedlaetholwr o sant, ond yn diystyru Dewi'r cenhadwr a'r efengylydd; yn barod i gofleidio araith Saunders 60 mlynedd yn ôl ar Dynged yr Iaith, ond heb fod â'r un angerdd dros weddi Valentine yn ei emyn arbennig, 'Dros Gymru'n gwlad':

> O deued dydd pan fo awelon Duw
> yn chwythu eto dros ein herwau gwyw,
> a'r crindir cras dan ras cawodydd nef
> yn erddi Crist, yn ffrwythlon iddo ef.

Bellach rydym am ei gofio fel achubydd y genedl Gymreig, mewn oes pan mae'r



genedl honno yn gyffredinol wedi ymbellhau oddi wrth ei seiliau Cristnogol.

## Arwr Cristnogol

Mae'n debyg na chafodd Dewi'r sylw haeddiannol o fewn ein heglwysi chwaith, ac yn arbennig yn ein mysg ni fel anghydffurfwyr gyda'n hawydd i ymbellhau oddi wrth y seintiau Celtaidd fel Dewi, Padarn, Teilo, Melangell, Gwenffrewi, Dwynwen, Illtud a llu o rai eraill.

Ystyrid cyfeirio at y seintiau hyn yn rhywbeth Catholig, a thrwy hynny fe gollwyd llawer o gyfoeth y stori Gristnogol yng Nghymru. Cofiwn mai pobl a arweiniodd eraill at Grist oedd y seintiau hyn i gyd, a gallwn ddysgu cymaint drwy eu stori a'u neges.

Bydd mwy o eglwysi erbyn hyn yn cynnal oedfa Gŵyl Dewi, ac yn rhoi lle i'r sant fel rhan o'r gwasanaeth. Mae gennym sant i fod yn falch ohono: un nad yw'n cael ei gofio am 'ladd draig' ond am 'gynnig bywyd newydd' i'w gyd-Gymry drwy eu cyfeirio at Iesu Grist.

Dyna hefyd yw ein braint ninnau, ac wrth i dymor y Grawys eleni ddechrau ar Fawrth 2ail, dyma gyfle i gychwyn ar bererindod gyda'n gilydd, tuag at y Pasg. Cyhoeddwyd cyfrol fechan rai blynyddoedd yn ôl ar gyfer y Grawys, yn dwyn y teitl *40 Diwrnod gyda'r Seintiau Celtaidd*. Dyma gyfle i ddarllen am sant Celtaidd dros gyfnod o 40 diwrnod, pob un ohonynt mewn ffyrdd gwahanol yn ein cyfeirio at Iesu a neges ogoneddus y Pasg.

Cofio a gweddïo dros drigolion Wcráin
Tudalen 3

Heriau arwain Henaduriaeth drwy'r pandemig
Tudalen 5

Myfyrdod y Grawys
Tudalen 6

# *Cenn@d* yn flwydd oed

Wrth fwrw golwg yn ôl dros 52 rhifyn o'r wythnosolyn *Cenn@d* a dathlu ei ben-blwydd yn flwydd oed, rwy'n credu y gall pawb ymfalchïo fod y nod o gyfleu bwrlwm y bywyd Cristnogol yng Nghymru'r dwthwn hwn wedi ei gyflawni.

Cryn fenter, adeg Gŵyl Ddewi y llynedd, oedd lansio cyhoeddiad newydd o'r natur hwn, ond wedi blwyddyn gyfan o'i fodolaeth, gallwn ymfodloni yn fawr yn yr hyn a gafwyd. Parhad y Coronafeirws ac argyfwng y Covid oedd y cyd-destun ar y pryd, ac er i ni ddysgu ymgodymu â'r realiti newydd erbyn hyn, y sefyllfa ryngwladol rhwng Rwsia ac Wcráin, ymhlith pethau eraill, yw'r gofid ar hyn o bryd.

Mae'r eglwys yn bod yng nghanol y byd, ac mae'n rhaid i'w thystiolaeth adlewyrchu'r gofidiau cyfoes. Ac un o nodweddion *Cenn@d* ar hyd y flwyddyn oedd cysylltu'r genhadaeth Gristnogol â'r materion hynny a fu'n faterion consýrn i bob un ohonom. Hoffwn ddiolch i'r golygyddion am eu diwydrwydd, i'r colofnwyr am gynnal ein diddordeb ac i bawb arall, yn gyfranwyr a darllenwyr, am bob cefnogaeth ar hyd y misoedd rhyfedd a gafwyd drwy gydol 2021 ac i mewn i'r flwyddyn hon.

Edrych ymlaen yr oeddem flwyddyn yn ôl at weld y cyhoeddiad yn datblygu ac yn ennill ei le yng nghalonnau hen ddarllenwyr *Y Goleuad* a *Seren Cymru*, yn y gobaith hefyd o ddenu cehedlaeth o ddarllenwyr newydd. Mae'r dymuniad hwnnw yn parhau, ond wrth fwrw golwg dros gynnwys sylweddol rhifynnau'r flwyddyn yn eu diwyg lliwgar, ymfalchïwn fod sylfaen wedi ei gosod yn gadarn ar ein cyfer.

Fel y nodwyd y llynedd, wrth ddewis yr enw *Cenn@d* – gyda'i 'a' gynffonnog yn cyfleu'r dechnoleg newydd – bu'r Pwyllgor Llywio yn ymwybodol, ar y naill law, o natur oesol y genadwri Gristnogol, ac o heriau amrywiol y Gymru gyfoes ar y llall. Os 'mynegi', neu 'ddwyn cenadwri', sy'n cyfleu swyddogaeth *Cenn@d*, anelwyd drwyddo gyfryngu gwybodaeth am ein gilydd, ein heglwysi, eu haddoli a'u gweithgareddau, cyfnewid syniadau ac nid hwyrach ffurfio barn, a'r cwbl er hwyluso tystiolaeth y Ffydd. Ein gweddi unwaith yn rhagor yw y bydd *Cenn@d* yn gyfrwng effeithiol i ledaenu'r Newyddion Da yn y Gymru dechnolegol, ac yn dwyn bendith helaeth yn ei sgil.

*D. Densil Morgan*
*Cadeirydd y Pwyllgor Llywio*

# Teyrnged i'r Parchedig Anita Ephraim

Ym Mynytho ar Benrhyn Llŷn y ganwyd ac y magwyd Anita, yn ferch i Hywel ac Ella Parry ac yn chwaer fach i Gwilym. Fe'i haddysgwyd yn ysgol gynradd y pentref ac Ysgol Botwnnog, a'i haelwyd grefyddol, a barhaodd yn annwyl iawn iddi gydol ei hoes, oedd Capel Horeb, Mynytho. Ac yno, a hithau'n ferch ysgol ddeuddeg oed, y cyffyrddwyd ei chalon am y tro cyntaf pan ganwyd emyn anfarwol Eben Fardd, 'O fy Iesu bendigedig, / unig gwmni f'enaid gwan', yn angladd ei thaid. Arferai ddweud mai'r profiad dwys yma a'i gosododd ar lwybr y weinidogaeth.

### Coleg Bala–Bangor

O ysgol enwog Botwnnog aeth ymlaen i Goleg Bala–Bangor i'w chymhwyso'i hun i waith y weinidogaeth, ac yn 1982 fe'i hordeiniwyd yn weinidog ar ofalaeth Pen-y-bont Fawr yn Nyffryn Tanat yng nghanol mwynder Maldwyn, gofalaeth oedd yn ymestyn o'r Waun i gyffiniau Croesoswallt. Treuliodd gyfnod wedi hynny yn gweithio gyda mudiad efengylaidd rhyngenwadol Scripture Union, ac wedi cyfnod gartref ym Mynytho derbyniodd alwad yn 1999 i fugeilio Capel Bethel, Llan Ffestiniog. Yma y cyfarfu â Gwil, ei henaid hoff, cytûn, a phriodi ac ymgartrefu yn Nhyddyn Merched. Ymhen y rhawg, ychwanegwyd eglwysi Bryn Tecwyn ac Utica i'w gofal hefyd, ac yn 2006 derbyniodd alwad i fugeilio Gofalaeth Bro Trawsfynydd.



### Pregethu

Roedd hi'n credu'n angerddol mewn pregethu – a chanddi gof arbennig. Anaml iawn y byddai'n defnyddio nodiadau. Roedd yn hynod garedig ac agos atoch wrth natur ac yn barod bob amser i fynd yr ail filltir, ond gallai hefyd fynegi ei barn yn groyw a diflewyn-ar-dafod. Ymdrechodd i fugeilio a gwarchod ei phraidd hyd eithaf ei gallu. Mewn tŷ galar roedd hi'n gefn ac yn gryfder – yn cydymdeimlo â'r profedigaethus yng ngwir ystyr y gair. Mewn angladd merch ifanc yn ddiweddar roedd ei llais yn torri dan deimlad a'r dagrau'n llifo i lawr ei gruddiau. Roedd ganddi arfer hyfryd o baratoi taflenni o'r gwasanaethau angladdol i'r teuluoedd eu cadw. Gwnâi yr un modd gyda gwasanaethau bedydd. Doedd dim yn ormod o drafferth, a byddai'n aml ar ei thraed wrth wely claf neu'n paratoi gwasanaethau neu ddeunydd i wefan yr ofalaeth – yn arbennig yn ystod y cyfnod clo – hyd oriau mân y bore.

### Teulu

Ar ei haelwyd, fel yn ei gwaith, roedd hi'n gwarchod ac yn cynnal. Hi oedd calon ac angor ei theulu, a'i gofal a'i chonsýrn am Gwil, Siôn, Tomos a Catrin yn fawr. Oherwydd prinder gweinidogion roedd galw mynych am ei gwasanaeth y tu hwnt i ffiniau ei gofalaeth, ac er bod ei hiechyd yn fregus yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma ymdrechai i ymateb i bob galw.

Daeth y diwedd yn frawychus o sydyn ac annisgwyl, ac yn ôl ei dymuniad cynhaliwyd ei gwasanaeth angladdol yng Nghynfal Fawr yng ngofal ei chyfnither, y Parch Megan Williams. Traddodwyd teyrnged hyfryd iddi gan Rhian Williams, cyfnither arall iddi, a chafwyd geiriau o werthfawrogiad gan Gwilym Ephraim a'r Parchedigion Carwyn Siddall ac Euron Hughes. Fe'i rhoddwyd i orffwys ar dir ei chartref gyda geiriau gogoneddus emyn Eben Fardd, oedd wedi ei hysbrydoli a'i chynnal mewn hawddfyd ac adfyd, yn seinio yn ein clustiau.

Diolch i Dduw amdani. Boed iddi orffwys mewn hedd.

*Megan Williams*

(trwy ganiatâd *Y Tyst*)